

DATGANIAD STRATEGAETH Y GRANT DATBLYGU DISGYBLION 2026-27

Yn Ysgol Glan Morfa, rydym yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i sicrhau nad yw amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn rhwystr i lwyddiant. Rydym yn adnabod anghenion ein dysgwyr yn gynnar ac yn darparu cymorth amserol ac wedi'i dargedu i gefnogi eu cynnydd academiaidd, eu lles a'u hymgysylltiad â bywyd ysgol.

Mae defnydd y grant yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cynllun Datblygu'r Ysgol, gan ganolbwyntio ar godi safonau, gwella presenoldeb, cefnogi lles a sicrhau tegwch i bob dysgwr.

Trosolwg Ysgol

Manylion	Data
Enw'r ysgol	Ysgol Glan Morfa
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	229
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	30.9% (Cyfartaledd 3 blynedd)
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	2.10.26
Dyddiad y caiff ei adolygu	2.10.27
Awdurdodwyd y datganiad gan	Pwyllgor Cyllid yr Ysgol
Yn arwain ar y GDD	Meilir Tomos (Pennaeth)
Llywodraethwr sy'n arwain	Tony Venn (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Trosolwg Cyllid

Manylion	Swm
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academiaidd hon	£91,500
Dyraniad cyllid GDDblynyddoedd Cynnar y flwyddyn academiaidd hon.	
Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academiaidd hon	

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o Fwriad

Mae Grant Datblygu Disgyblion (GDD) yn darparu cyllid ychwanegol i ysgolion er mwyn cefnogi dysgwyr sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â phlant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol.

Yn Ysgol Glan Morfa, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i lwyddo, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Defnyddiwn y Grant Datblygu Disgyblion yn strategol i leihau rhwystrau i ddysgu, gwella lles a chynyddu cyfleoedd i bob plentyn gyflawni ei botensial llawn.

Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar dair prif flaenoriaeth:

- **Academaidd** – codi safonau a chyflymu cynnydd drwy ddarparu adnoddau, ymyriadau a chefnogaeth wedi'u targedu.
- **Cyfoethogi** – sicrhau mynediad cyfartal at weithgareddau, ymweliadau, profiadau a chyfleoedd sy'n ehangu gorwelion dysgwyr.
- **Lles ac Ymddygiad** – darparu cymorth emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol effeithiol er mwyn cefnogi dysgwyr i ymgysylltu'n llawn â bywyd yr ysgol.

Drwy ddefnyddio'r grant yn effeithiol, ein nod yw lleihau bylchau cyflawniad, meithrin hyder a gwydnwch, a sicrhau bod pob dysgwr yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ffynnu

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Academaidd Lleihau bylchau cyflawniad dysgwyr agored i niwed drwy'r canlynol. Adnoddau - Buddsoddi mewn adnoddau sydd yn datblygu addysg ein disgyblion ymhellach e.e Mathsfactor, Darllen Co. Ymyrraethau - Adnabod grwpiau ymyraethol a sicrhau fod y disgyblion sydd yn gymwys am GDD yn derbyn ymyrraethau perthnasol.	- Bydd o leiaf 80% o ddisgyblion sy'n derbyn ymyrraethau yn gwneud cynnydd disgwylidig neu well mewn llythrennedd a rhifedd. - Bydd data tracio'r ysgol yn dangos lleihad yn y bwlch cyflawniad rhwng disgyblion GDD a'u cyfoedion. - Disgyblion yn datblygu sgiliau yn unol a'u hoedran. - Dal i fyny yn dilyn y pandemig. - Ymyrraethau penodol yn targedu gwenididau'r disgyblion.
Cyfoethogi Clybiau Chwaraeon / Gwersi Nofio - Disgyblion ym mlwyddyn 3 yn derbyn gwersi nofio am ddim. Ymweliadau Addysgol Gwersi Offerynnol Rydym yn defnyddio y grant GDD i gynnig gostyngiad mewn costau ar gyfer ymweliadau addysgol e.e taith Llangrannog ac mewn costau gwersi offerynnol.	- Sicrhau nad yw cost yn rhwysr i gyfranogiad. - Cynyddu cyfran y disgyblion GDD sy'n cymryd rhan mewn ymweliadau, clybiau a gweithgareddau allgyrsiol. - Disgyblion yn datblygu yn gymdeithasol ac yn cael yr un profiadau a'u cyfoedion. - Disgyblion yn datblygu sgiliau a sgiliau bywyd pwysig.
Lles Rydym yn defnyddio y Grant Datblygu Disgyblion i - Hyfforddi staff ychwanegol ar brosiect Thrive - Rhoi mewn lle darpariaeth arbennigol "Dosbarth Lles" ble mae disgyblion yr Ysgol yn cael mynychu'r darpariaeth pan fod angen. Mae'r darpariaeth hwn yn cynnwys sesiynau ELSA/Therapi Celf / Therapi Lego a sesiynau galw mewn amser cinio. - Hyfforddi aelod arall o staff mewn ymyrraethau lles ac ymaraethol.	- Gwelliant yn sgorau Thrive a Rise. - Gostyngiad mewn atgyfeiriadau ymddygiad. - Gwell presenoldeb ymhlith disgyblion targed. - Disgyblion yn cael sesiynau addas l'w anghenion. - Disgyblion yn datblygu gwydnwch, sgiliau cymdeithasol, cydweithio. - Datblygu hunan hyder, sgiliau personol a hunan barch.

Ymddygiad Anfon disgyblion sydd yn cael anhawsterau gyda emosiynau ac yn dangos ymddygiad pryderus l weithio gyda gweithgareddau Galwedigaethol er mwyn gwella eu lles/ymddygiad a datblygu hunan hyder.	- Disgyblion yn hapusach. - Disgyblion yn codi hunan hyder - Disgyblion yn datblygu l fod yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned. - Cynyddu dyheaiadau.
---	---

Gweithgarwch yn y flwyddyn academiaidd hon 2026-27

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academiaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £81,500

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Cyflogi cymhorthyddion sydd yn darparu ymyraethau amrywiol ar gyfer ein disgyblion.	- Darparu ymyrraethau yn yr Ysgol isaf, ganol ac uchaf yn dilyn y pandemic. - Data Ymyrraethau - Cynnydd yn llyfrau'r disgyblion.

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, lechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £10,000

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Cyflogi Therapydd Cerddoriaeth	Cefnogi dysgwyr sydd ag anghenion emosiynol a rheoleiddio drwy sesiynau unigol a grŵp bach.
Cymhorthydd Lles	Monitro cynnydd drwy dargedau lles unigol, presenoldeb ac adborth disgyblion.

Ysgolion Cymunedol.

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Hyfforddi aelod arall o staff yn ELSA.	Disgyblion bregus yn derbyn cyfleoedd l gymdeithasu, codi hyder a datblygu sgiliau newydd.
Rhieni yn dod l mewn l gynorthwyo gyda'r sesiynau darllen.	Disgyblion l dderbyn Cymorth ychwanegol gyda eu sgiliau darllen. - Gweithdai i rieni. - Clwb darllen teuluol. - Digwyddiadau lles teuluol.

	Cynnal cyfarfodydd gyda theuluoedd bregus.
--	--

Cyfanswm cost y ceisiadau: £91,500

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academiaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academiaidd 2025-26

2025-26

Academiaidd

Cymerodd 42 o ddisgyblion ran mewn ymyraethau llythrennedd a rhifedd. Gwnaeth mwyafrif y disgyblion gynnydd yn erbyn eu targedau unigol.

Lles

Cafodd 38 o ddisgyblion gymorth Thrive, ELSA neu therapi. Dangosodd mwyafrif y disgyblion wellianau mewn hunanreoleiddio a hyder.

Cyfoethogi

Derbyniodd disgyblion gymorth ariannol ar gyfer ymweliadau preswyl, gwersi offerynnol a gweithgareddau allgyrsiol, gan sicrhau nad oedd cost yn rhwystri gyfranogiad.

Rhaglen	Darparwr
Thrive	Fronting the Challenge Projects Ltd
Darllen Co	Alex Knott
Traciwr	Prodeo LTD